

16 Blue Abstract Kefel

C E R A M I C
S E R I E S ●



anne marie robinson



A B E R Y S T W Y T H A R T S C E N T R E

November 1994
number 69

Size has always been important to Anne-Marie Robinson, who stands all of five foot nothing in her stocking soles. The small scale which characterised her early work met expectations.


It began at art college with the discovery of porcelain as a medium, and hand building as a way of making. Here she discovered a dexterity which enabled her to exploit the fineness of the material. Here too, she developed a strong interest in decoration, working with gold and bronze lustres and enamels. Robinson recalls her student days as 'the best years of my life', a time rich in experimentation when it 'was possible to be truly creative without the pressures of having to make a living'.

The detail in her early work was impressive not least because of the technical demands of the scale. I remember her tiny mice studies and one in particular of two courting couples in a 50's style convertible Roadster. The ladies are resplendent in polka dot bikinis with ponytails and ice cream cones, the gents have Elvis quiffs and heaps of attitude. Given the discipline involved it would be easy to lose the humour and appear over precious. Robinson does neither.

Perhaps not surprisingly the years immediately after college were difficult, characterised by the usual lack of money and support which so often beleaguers those potters who choose the path of artist craftsman. Whilst it was possible to see the very best contemporary potters from the UK and abroad in the Ulster Museum's excellent growing collection of Contemporary Ceramics, the local arts establishments offered very little encouragement to budding local talent, forcing it to seek recognition further afield.

Over ten years or so Robinson's work has steadily developed, as have opportunities for potters in Ireland. The Crafts Council of Ireland recognised her talent early on and new shows and venues in the north such as Open Ceramics and Craftworks were quick to follow.

During this time she has become one of the strongest decorative artists in her field in Ireland. The forms of her pots have changed when necessary from the little pinched pots of the early eighties to larger pinched and coiled pots at the end of that decade and from the rounded hand-modelled teapots of the early nineties to the irregular slab pots which dominate her work to-day. The forms have evolved in both a conscious and unconscious way as a response to her desire to explore her primary interest in decoration.



The early pinch pots are simple forms with little surface area necessitating control in decoration. Here Robinson experiments with pattern, wedging colour into clay through slips, in a dolly mixture effect with one colour wrapped around a contrasting colour. The scale was soon to increase - allowing for more variety and complexity in decorative technique. Organic shapes - fish, anemones, eels and sandworms - appear in relief on the body of the pot, as pressed-on decorative edging and as handles, spouts and lids of teapots.

New techniques are developed to further articulate the surface of the work. We see etching and incising and a pierced effect, achieved by applying white glaze pre-biscuit and firing to lower than 1000 degrees C. Colour is strong but restricted on each pot, achieved with matte body stains. Bold stripes in solid primary colours counterbalance the softer dreamy subterranean imagery.

In the early nineties Robinson moved on from the etched exteriors and matte body stains to a new palette of colours - strong jazzy geometrics and glazed surfaces. The result is a new vibrancy reflected both in form and decoration. Colours are mouthwateringly fruity, the decoration less formal, the forms larger and more irregular. Here, coloured dots and zebra-like stripes seem to dance on undulating surfaces.

There is a desire to be more painterly and we see Robinson introducing the slab form, treating it like a canvas on to which colour is applied freely. The teapots of this period work particularly well, with almost abstract brushwork applied in a spontaneous manner resulting in a new freshness. However, these pots, whilst affording new opportunities in decorating have proved to be difficult in the making, the wetness of the painted surface often resulting in dropping and cracking at the assembly stage.

Currently Anne-Marie Robinson is concentrating on a variety of hand-building techniques. I visited her studio in early Autumn to watch her work. Pots in different stages of making cover almost every surface.

Large flat fish clamped between two boards take up much of the floor space. They will stay there for three days to prevent warping and will be turned several times a day. Slab bowls lie flat to dry whilst Robinson rolls out a thin sausage of clay. She runs the body of a paint brush lightly up and down the length of the clay making regular indentations, then twists the clay lightly. It's a technique she picked up from a child she teaches in her local primary school and she uses it to make the soft, squashy edging for her strong, angular bowls.

In a corner a baby's bath is filled with transparent glaze. Two wooden slats allow Robinson to dip the larger pots, glazing both inside and out. I watch her work with a large ball of clay which she sets on her knee, turning and pinching alternatively. When practically dry she will start coiling on top, keeping her hands lightly oiled to prevent cracking. On her workbench sits a large coil pot which has been decorated at the green stage, allowing colour to fuse into the body. A high biscuit firing at 1050 degrees C has taken place and the pot has been re-painted and is drying out. It is almost ready for the baby's bath.

I see more colour than ever before. At least a dozen colours break up the irregular surface in interlocking circles, ziz-zags, checks, spots, stars, stripes and black fish motifs. Here one senses Robinson has reached a kind of pinnacle, in which form and decoration fuse in harmony, offering the viewer a multiplicity of decorative surfaces, each one delightfully different.

Gerda Spence

C Y F R E S O
●
G E R A M E G



anne marie robinson

Mae maint yn bwysig i Anne-Marie Robinson, a hithau'n bum troedfedd union yn nhraed ei sanau. Hwyrach nad oedd y raddfa fechan sy'n nodweddu'i gwaith cynnar ond i'w disgwyl.


Dechreuodd y cwbl yn y coleg celf lle y darganfu borslen fel cyfrwng, a llunio â llaw fel dull i greu. Yn y coleg hefyd y darganfu'r ddawn sydd wedi'i galluogi i ecsbloetio natur frau'r deunydd. Yna hefyd, datblygodd ddiddordeb cryf mewn addurno, a bu'n gweithio gydag aur, efydd, a gloyweddau ac enamelau. Mae gan Robinson atgofion melys am ei dyddiau fel myfyrwraig fel "dyddiau gorau ei bywyd", adeg pryd y bu'n arbrofi'n helaeth yn ystod y dyddiau hynny "pan oedd yn bosibl i fod yn wir greadigol heb orfod poeni am ennill bywiolaeth."

Roedd manylder ei gwaith cynnar yn hynod. Roedd gofynion technegol y raddfa ei hun yn sylweddol. Ryw'n cofio'i hastudiaethau mân, mân o lygod, ac un yn arbennig o ddau bâr o gariadon mewn Roadster to-clwt o'r 50au. Mae'r merched yn serennu mewn bikinis smotioedd gyda'u cynffonnau poni a choniau hufen iâ. Cwiffiau Elfis sydd gan yr hogia, ceiliogod go-iawn mae'n amlwg. O gofio'r gwaith manwl oedd ei angen, byddai'n ddigon hawdd iddi golli'r hiwmor ac i'r cyfanwaith ymddangos yn rhy neis-neis. Ond nid felly y mae gwaith Robinson.

Hwyrach nad oes syndod i'r blynnyddoedd ar ôl iddi adael y coleg fod yn anodd. Nodwediadol o'r crochenyddion hynny sy'n dewis bod yn artistiaid/crefftwyr oedd y diffyg arian a chefnogaeth. Tra oedd yn bosibl i weld y gorau o blith crochenyddion cyfoes o'r DU a thramor yng nghasgliad rhagorol cynyddol Cerameg Gyfoes Amgueddfa Ulster, nid oedd y sefydliad celf lleol yn cynnig fawr o hwb i flaenffrwth doniau lleol, gan eu gorfodi i fwrw'r rhwyd yn ehangach a cheisio cydnabyddiaeth ymhell o gartref.

Dros y deng mlynedd ddiwethaf, bu gwaith Robinson yn datblygu'n gyson, yn yr un modd ag y mae cyfleoedd i grochenyddion yn Iwerddon hefyd wedi'u datblygu. Cydnabuwyd ei thalent gan Gyngor Crefftâu Iwerddon yn gynnar, ac yn gyflym yn sgil hyn, daeth sioeau a chanolfannau newydd i'r gogledd, megis Open Ceramics a Craftworks.

Yn ystod y cyfnod hwn, fe ddaeth yn un o artistiaid addurniadol cryfaf yn ei maes yn Iwerddon. Mae ffurflau'i llestri wedi newid fel bo angen; o'r llestri pinsiad bychain yn yr wythdegau cynnar i'r llestri torch mwy sylweddol ar ddiwedd y ddegawd honno; o'r tebotiau crynion wedi'u modelu â llaw ar ddechrau'r nawdegau i'r potiau slab afreolaidd sy'n dominyddu'i gwaith y dyddiau hyn. Mae'r ffurflau wedi datblygu mewn ffordd ymwybodol ac anymwybodol fel ymateb i'w hawydd i hybu'i phrif ddiddordeb, sef addurno



Ffurfiau syml yw'r llestri pinsiad cynnar heb fawr o arwynebedd sy'n gofyn am addurno cynnil. Yn y fan hon y mae Robinson yn arbrofi gyda phatrwm, gan wthio lliw i mewn i'r clai drwy slapiau, gyda'r naill liw yn lapio am liw gwrtgyferbyniol arall. Cyn bo hir, aeth y llestri'n fwy gan roi cyfle am fwy o amrywiaeth a chymhlethdod mewn techneg addurno. Dechreuodd siapiau organig - pysgod, anemonau, slywennod a llyngyr y traeth - ymddangos mewn cerfwedd ar gorff y llestri, ar ffurf ymwl addurnedig wedi'i gwasgu i'w lle ac fel dolenni, pigau a chaeadau tebotiau.

Datblygwyd technegau newydd i roi mynegiant pellach i wyneb y gwaith. Gwelwn ysgythriadau, toriadau a thrywanu wedi'u gwneud drwy ddefnyddio gwydro gwyn cyn-fisged a thanio yn is na 1000 gradd C. Mae'r lliw'n gryf ond yn gyfyngedig ar bob llestr drwy ddefnydd o staeniau corff mat. Mae streipiau llachar mewn lliwiau primaidd yn gwrthbwytio'r delweddaeth freuddwydiol, danddaearol a mwy meddal.

Ar ddechrau'r nawdegau, mae Robinson yn symud ymlaen o'r sgythru allanol a'r staeniau corff mat i ddewis newydd o liwiau - geometrig jazzy, cryf gydag wynebau wedi'u gwydro. Y canlyniad yw bywiogrwydd newydd a welir yn y ffurf a'r addurno. Mae'r lliwiau'n tynnu dŵr i'r dannedd bron, mae'r addurno'n llai ffurfiol, y ffurfiau'n fwy ac yn llai rheolaidd. Yma, gwelir smotiau lliwgar a streipiau sebra'n dawnsio ar arwynebau tonnog.

Amlygir awydd i fod yn fwy o beintwraig, a gwelir Robinson yn cyflwyno ffurf y slab, gan ei thrin fel cynfas lle y gellir lliwio'n ddiatal. Mae'r tebotiau a wnaethpwyd yn ystod yr adeg yma'n gweithio'n arbennig o dda. Mae'r brwsh paent wedi'i ddefnyddio mewn ffordd haniaethol, fyrfyfyr bron gan greu ffresni newydd. Fodd bynnag, er bod y llestri yma wedi cynnig cyfleoedd newydd wrth addurno, buont yn anodd i'w gwneud gan fod y paent gwylb yn aml yn achosi problemau.

Ar hyn o bryd, mae Anne-Marie Robinson yn canolbwytio ar amryw o dechnegau llaw. Mi ymwelais â'i stiwdio yn gynnar yn ystod yr hydref i'w gwyllo wrth ei gwaith. Mae llestri ar eu hanner i'w gweld dros bob man.

Mae pysgod mawr llydain wedi'u clampio rhwng byrddau'n cymryd llawer iawn o le ar y llawr. Byddant yn aros yno am dridiau i'w hatal rhag ystofi ac fe'u troir sawl gwaith y dydd. Mae powlenni slab yn gorwedd yn wastad i sychu wrth i Robinson roilio allan selsigen denau o glai. Mae'n rhedeg corff brws paent i fyny ac i lawr ar hyd y clai, gan adael marciau rheolaidd. Yna, mae'n troi'r clai'n ysgafn. Cododd y dechneg yma oddi wrth blentyn y mae'n ei dysgu yn ei hysgol gynradd leol, a bydd yn ei defnyddio i wneud yr ymwl feddal ar gyfer ei phowlenni onglog cryfion.

Yn y gongl, saif baddon babi llawn gwydredd tryloyw. Mae dau slat pren yn gadael i Robinson ddipio'r llestri mawr, gan eu gwydro ar y tu mewn ac ar y tu allan. Dwi'n ei gwyllo wrth ei gwaith gyda phelen fawr o glai ar ei phen-glin, yn ei phinsio a'i thro i am yn ail. Pan fydd y clai bron â bod yn sych, bydd hi'n dechrau torchi am ei ben, gan gadw'i dwylo wedi'i iro ychydig i atal unrhyw gracian. Ar y faint lle y mae'n gweithio, mae yna lestr torch mawr sydd wedi'i addurno'n wyrdd i ddechrau, y lliw'n cael amser i doddi i'r corff. Mae eisoes wedi'i danio hyd at 1050 gradd C, ac mae'r pot wedi'i ailbeintio ac yn sychu. Bron nad yw'n barod ar gyfer baddon y babi.

Gwelaf fwy o liw nag erioed o'r blaen. O leia dwsin o liwiau gan dorri'r wyneb afreolaidd yn gylchoedd sy'n cloi, yn batrymau igam-ogam, sgwariau, smotiau, sêr, streipiau a phatrwm pysgod du. Gellir teimlo, yn y fan hon, fod Robinson wedi cyrraedd rhyw anterth lle mae ffurf ac addurno'n ymdoddi mewn cytgord, gan gynnig myrdd o wynebau addurnedig, pob un yn hyfryd o wahanol.

Gerda Spence